

Cyflwyniad i Ddatganiadau Disgwyliadau Cafcass Cymru

Egwyddorion Allweddol

Mae gan Cafcass Cymru rôl hanfodol o ran cynorthwyo plant a theuluoedd mewn achos llys teulu. Rydym yn cynghori'r llysoedd ar yr hyn a ystyriwn fydd er lles pennaf plant unigol. Mae pob achos yn cael ei gyfeirio atom gan lys. Mae lles y plentyn yn y dyfodol wrth wraidd pob penderfyniad a wneir gan Cafcass Cymru.

Rydym yn rhan o Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Rydym yn atebol i'r Gweinidog a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rydym wedi datblygu cyfres o ddatganiadau o ddisgwyliadau sy'n disgrifio'r gwasanaethau y mae Cynghorwyr Llys Teulu a Gweithwyr Cymdeithasol Llys Teulu yn gallu eu darparu a pha wasanaeth nad ydym yn gallu ei ddarparu.

Mae'r egwyddorion allweddol canlynol yn sail i'r datganiadau hyn

1. Byddwn yn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed mewn Achos Teulu ac rydym yn ymrwymedig i weithredu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Byddwn yn sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sail i'n holl waith gyda phlant a phobl ifanc.
2. Byddwn yn darparu cyngor a gwybodaeth arbenigol annibynnol o ansawdd uchel i blant, teuluoedd ac i'r llysoedd. Bydd ein hymyriadau'n cael eu targedu'n strategol i ddarparu'r gwerth mwyaf posibl o'r adnoddau sydd gennym ar gael.

3. Mewn achosion cyfraith gyhoeddus byddwn yn craffu ar y penderfyniadau a'r trefniadau a wnaed gan yr awdurdod lleol a'u hadolygu a gwneud argymhellion annibynnol i'r llys. Byddwn bob amser yn ceisio cyfarwyddyd y llys i sicrhau bod y mater gerbron y llys yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen a nodir, neu sicrhau bod cyfarwyddiadau'n cael eu cyflawni.
4. Mewn achosion cyfraith breifat byddwn yn ceisio hwyluso'r datrys cynharaf posibl mewn achosion, er lles pennaf y plant dan sylw. Mae ein hymyriad yn dechrau gyda'r plentyn ac yn aros gyda'r plentyn drwy gydol oes yr achos; ein rôl yw cyfyngu'r materion ar gyfer y plentyn tra'n galluogi dealltwriaeth y llys o ran sut i gyflawni'r canlyniad gorau i'r plentyn cyn gynted â phosibl.
5. Byddwn yn sicrhau bod yr holl waith yn cael ei ddyrannu fel bod pob plentyn yn cael gwasanaeth amserol, effeithiol ac effeithlon sy'n ddigonol i'w anghenion.

